Os ydych chi mewn awdurdodaeth nad yw'n rhan o'r Deyrnas Unedig, gallai'r mathau o ddata personol, a sut caiff ei brosesu, fod yn wahanol er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau lleol yn y wlad honno. Cewch wybodaeth ychwanegol am y prosesu hwn, fel y bo'n briodol. Os oes gennych chi gwestiynau am y modd y mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i brosesu eich data personol, siaradwch â'ch Swyddog Diogelu Data perthnasol neu eich tîm adnoddau dynol lleol.

Mae'n bwysig darllen yr hysbysiad hwn, ynghyd ag unrhyw bolisïau neu weithdrefnau corfforaethol perthnasol, ac unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall y gallem ei ddarparu ar adegau penodol pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu data personol amdanoch, fel eich bod yn gwybod sut a pham rydym yn defnyddio data personol o'r fath.

1.2 Egwyddorion Diogelu Data

Byddwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae'r ddeddfwriaeth yn dweud bod yn rhaid i'r data personol rydym yn ei dal amdanoch chi:

7. Gael ei defnyddio'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw.
8. Rhaid i'r wybodaeth bersonol gael ei chasglu at ddibenion dilys yn unig a ninnau wedi esbonio'r dibenion hynny'n glir i chi a heb ei defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
9. Rhaid i'r wybodaeth bersonol fod yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi sôn wrthych amdanynt ac wedi'i chyfyngu i'r dibenion hynny yn unig.
10. Rhaid i'r wybodaeth bersonol fod yn gywir ac yn gyfoes.
11. Rhaid cadw'r wybodaeth bersonol dim ond am yr amser sy'n ofynnol ar gyfer y dibenion rydym wedi dweud wrthych amdanynt.
12. Rhaid i'r wybodaeth gael ei phrosesu mewn ffordd sy'n sicrhau bod y data personol yn cael ei ddiogelu'n briodol gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol.

Rydym yn atebol am yr hyn a wnawn gyda'ch data personol a sut rydym yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn.

2. Y DATA PERSONOL SYDD GENNYM AMDANOCH CHI

Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn a gallai gael ei defnyddio i adnabod yr unigolyn hwnnw. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r manylion adnabod wedi cael eu tynnu ac nad oes modd eu hailgysylltu ag unigolyn (a elwir yn ddata 'dienw').

Mae "categorïau arbennig" o ddata personol mwy sensitif sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch.

2.3 Data personol sy'n cael ei gasglu, ei storio a'i brosesu

Byddwn yn casglu, storio ac fel arall yn prosesu'r data personol a ganlyn amdanoch chi lle bo hynny'n berthnasol (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Manylion cyswllt personol fel enw, teitl, cyfeiriadau, rhifau ffôn (llinell sefydlog a ffôn symudol), a chyfeiriadau e-bost personol
- Dyddiad geni
- Statws rhywedd neu ailbennu rhywedd
- Cenedligrwydd
- Statws priodasol a dibynyddion
- Gwybodaeth am eich cefndir economaidd-gymdeithasol
- Perthynas agosaf, cysylltiadau mewn argyfwng, a'u gwybodaeth ar gyfer cysylltu
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Manylion cyfrif banc, cofnodion cyflogres a gwybodaeth am statws treth

- Gwybodaeth am gyflog ac iawndal, gwyliau blynyddol, pensiwn a buddion
- Lleoliad eich gwaith neu eich gweithle
- Copi o'ch pasbort, trwydded yrru neu brawf adnabod ffotograffig arall a/neu ddogfennau prawf o gyfeiriad
- Manylion cofrestru cerbyd
- Hanes cyflogaeth ac addysg, gan gynnwys eich cymwysterau, ceisiadau am swyddi, geirdaon cyflogaeth, a gwybodaeth am hawl i weithio
- Gwybodaeth am eich swydd a'ch contract cyflogaeth, gan gynnwys teitl y swydd, y dyddiadau dechrau a gorffen, patrymau gweithio, goramser, treuliau a benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor teithio
- Manylion ail gyflogaeth, datganiadau ynghylch gwrthdaro rhwng buddiannau, neu ddatgeliadau ynghylch rhoddion
- Gwybodaeth am eich cofnod hyfforddiant, anghenion datblygu ac aelodaeth broffesiynol
- Gwybodaeth am berfformiad, gan gynnwys adolygiadau cyfnodau prawf, adolygiad datblygiad personol a dyrchafiadau
- Gwybodaeth am faterion cwyno a disgyblu
- Eich ymatebion i arolygon staff os nad yw'r data'n ddienw
- Lluniau a lluniau teledu cylch cyfyng, a gwybodaeth arall a geir drwy ddulliau electronig, megis cofnodion cardiau sweipio
- Gwybodaeth mae ei hangen arnom er mwyn i chi allu defnyddio a mynd ar systemau'r BBC a gwasanaethau TG eraill
- Gwybodaeth amdanoch yn mynd ar, ac yn defnyddio, systemau gwybodaeth a chyfathrebu

2.4 Casglu, storio a phrosesu data categori arbennig

Cawn hefyd gasglu, storio a defnyddio'r **"categorïau arbennig"** a ganlyn o wybodaeth bersonol mwy sensitif:

- Data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth o undeb llafur
- Data ynghylch iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflwr meddygol, cofnodion iechyd a salwch, statws brechu, ac adroddiadau a dogfennau cyfeirio at yr adran Iechyd Galwedigaethol
- Data sy'n ymwneud â bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol
- Data genetig
- Data biometrig (lle mae'n cael ei ddefnyddio at ddibenion adnabod)
- Gwybodaeth am euogfarnau/honiadau troseddol a throseddu

3. SUT MAE EICH DATA PERSONOL YN CAEL EI GASGLU?

Rydym yn casglu data personol amdanoch chi drwy nifer o ffynonellau gan gynnwys y canlynol, ond

nid yw hon yn rhestr gyflawn:

- Yn uniongyrchol gennych chi
- Drwy'r broses contractio/recriwtio ac ymgeisio, yn uniongyrchol gan ymgeiswyr neu weithiau gan asiantaeth gyflogi neu gan eich cyn-gyflogwyr, neu gan ganolwyr eraill
- Eich cyflogwr os ydych chi ar secondiad
- Adrannau'r llywodraeth, fel gwybodaeth am dreth gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi
- Gweinyddwyr pensiynau
- Darparwyr archwiliadau cefndirol, megis asiantaethau cyfeiriadau credyd, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (neu ei ragflaenydd/unrhyw sefydliad cyfatebol perthnasol) ac unrhyw awdurdod rheoleiddiol perthnasol
- Ffynonellau cyfryngau cymdeithasol/cyfryngau cyhoeddus
- Darparwyr Iechyd Galwedigaethol a darparwyr iechyd eraill
- Darparwyr buddion staff
- Systemau mynediad biometrig yn swyddfeydd a safleoedd y BBC
- Lluniau teledu cylch cyfyng o'r systemau a osodir yn ein hadeiladau a'n cerbydau
- Camerâu ANPR

Byddwn yn casglu data personol ychwanegol amdanoch chi yn ystod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â swydd gydol y cyfnod y byddwch yn gweithio neu'n gysylltiedig yn broffesiynol â ni.

4. SUT BYDDWN YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Dim ond pan mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn defnyddio eich data personol.

Yn fwyaf cyffredin, byddwn yn defnyddio eich data personol yn yr amgylchiadau a ganlyn:

7. Pan fo angen i ni gyflawni ein contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi.
8. Pan fo angen i ni gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol (pa un ai a yw hynny o dan y contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi neu fel arall).
9. Pan fo hynny'n ofynnol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon ni (neu rai trydydd parti) a phan nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi yn drech na'r buddiannau hynny.

Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn defnyddio eich data personol yn y sefyllfaoedd canlynol, sy'n debygol o fod yn anaml iawn:

10. Pan fo angen i ni ddiogelu eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall).
11. Pan fyddwn wedi cael eich caniatâd.

4.4 Y sefyllfaoedd pryd byddwn ni'n defnyddio eich data personol

Mae angen yr holl gategorïau data personol yn y rhestr uchod arnom, yn bennaf ei mwyn i ni allu cyflawni ein contract gyda chi, darparu mynediad i chi at y gwasanaethau busnes sydd eu hangen ar gyfer eich rôl, ac i'n galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Mewn rhai achosion, fe

allem ddefnyddio eich data personol gyda'ch cydsyniad neu i fynd ar ôl ein buddiannau cyfreithlon ni ein hunain neu rai trydydd parti, ar yr amod nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi yn drech na'r buddiannau hynny. Mae'r sefyllfaoedd pryd y gallem brosesu eich data personol yn cynnwys y rhai a restrir isod (ond heb eu cyfyngu iddynt).

- Gwneud penderfyniad am eich recriwtio neu eich penodi, rolau mewnol neu ddyrchafiadau rydych chi'n cael eich ystyried ar eu cyfer, gan gynnwys cynnal archwiliadau am ddeunydd niweidiol ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer swyddi a nodwyd
- Pennu'r telerau ar gyfer gweithio i ni
- Gwirio bod gennych hawl dan y gyfraith i weithio yn y Deyrnas Unedig.
- Gweinyddu'r contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi.
- Talu, arolygu a gweinyddu eich cyflog, pensiwn a darparu buddion eraill yn gysylltiedig â chyflogaeth.
- Os ydych chi'n gyflogai, ac o ran rhai o'n gweithwyr hunangyflogedig, tynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Cysylltu â'ch gweinyddwr pensiwn.
- Gweinyddu hawl i seibiant statudol a chytundebol megis tâl salwch, gwyliau a chyfnodau mamolaeth, gan gynnwys y rhwymedigaethau statudol ac adroddiadau rheoleiddiol sydd arnom.
- Cynnal adolygiadau perfformiad, rheoli perfformiad a phennu gofynion perfformiad.
- Gwneud penderfyniadau am adolygiadau cyflog ac iawndal.
- Asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg benodol, gan gynnwys penderfyniadau am adolygiadau graddfeydd a dyrchafiadau.
- Os ydych chi'n gyflogai, casglu tystiolaeth ac unrhyw gam arall sy'n ymwneud â'r posibiliadau a ganlyn:
    - Mae cwynion ac urddas yn y gwaith yn bwysig
    - Ymchwiliadau mewnol y gallech chi fod yn gyfrannog iddynt neu'n dyst iddynt
    - Materion disgyblu, gan gynnwys cofnodion a dogfennau'n ymwneud ag unrhyw ymchwiliad, gwrandawiad a rhybudd a roddwyd
- Gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â pharhad eich cyflogaeth neu waith.
- Gwneud trefniadau ar gyfer terfynu ein perthynas waith.
- Cynnal cyfweliadau ymadael.
- Gofynion addysg, hyfforddi a datblygu.
- Delio ag anghydfodau cyfreithiol sy'n ymwneud â chi, neu gyflogeion, unigolion hunangyflogedig, gweithwyr a chontractwyr eraill, gan gynnwys damweiniau yn y gwaith.
- Pryderon chwythu'r chwiban a fynegwyd gennych chi, ac y gallech chi fod yn gyfrannog iddynt neu'n dyst iddynt.
- Rheoli busnes, gan gynnwys cyfrifyddu ac archwilio, a chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau statudol neu adroddiadau rheoleiddiol.

- Parhad busnes a chynllunio gan gynnwys ymarferion ailstrwythuro.
- Cydymffurfio â dyletswyddau iechyd a diogelwch.
- Atal twyll.
- Monitro eich mynediad, a'ch defnydd chi o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'n polisïau TG.
- Sicrhau diogelwch gwybodaeth a rhwydweithiau, gan gynnwys atal mynediad heb ei awdurdodi i'n cyfrifiaduron a'n systemau cyfathrebu electronig, ac atal meddalwedd faleisus rhag cael ei dosbarthu.
- Cynnal astudiaethau dadansoddi data i adolygu a deall yn well y cyfraddau cadw staff a gadael-cyn-gorffen.
- Monitro cyfle cyfartal.
- Rhoi mynediad i chi at systemau'r BBC a'ch galluogi chi i ddefnyddio ein gwasanaethau TG, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti.
- Gweinyddu gwasanaethau eraill ar eich rhan fel prosesu treuliau, archebu teithiau neu lety a threfniadau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Edrychwch ar adran "Rhannu Data" yr hysbysiad preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn rhannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon.

4.5 Os na fyddwch yn darparu data personol

Oni fyddwch yn darparu gwybodaeth benodol pan gewch gais i wneud hynny, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cyflawni'r contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi (fel talu i chi neu ddarparu budd), neu mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol (fel sicrhau iechyd a diogelwch ein gweithwyr).

4.6 Newid diben

Dim ond at y dibenion y gwnaethom gasglu eich data personol ar eu cyfer y byddwn yn ei defnyddio, onid ydym yn rhesymol gredu bod angen i ni ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol at ddiben nad yw'n gysylltiedig â'r diben gwreiddiol, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Byddwn hefyd yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi ni i wneud hynny.

Sylwch y gallwn brosesu eich data personol heb yn wybod i chi neu heb eich caniatâd, gan gydymffurfio â'r rheolau uchod, os yw hynny'n ofynnol dan y gyfraith neu'n cael ei ganiatáu dan y gyfraith.

5. SUT RYDYM YN DEFNYDDIO DATA PERSONOL SENSITIF IAWN

Mae “categorïau arbennig” o ddata personol sensitif iawn yn gofyn am lefelau uwch o ddiogelwch. Mae angen rhagor o gyfiawnhad arnom ar gyfer gallu casglu, storio a defnyddio'r math yma o ddata personol.

Mae’n bosibl y byddwn yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol yn yr amgylchiadau a ganlyn:

6. Mewn amgylchiadau prin, gyda’ch caniatâd ysgrifenedig penodol chi.
7. Lle mae angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, er enghraifft er mwyn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch 1974.
8. Pan fo ei angen er budd y cyhoedd - er enghraifft, at ddibenion monitro cyfle cyfartal.
9. Pan fydd ei hangen i asesu eich gallu i weithio ar sail iechyd, yn amodol ar fesurau diogelu cyfrinachedd priodol.
10. Yn llai cyffredin, mae’n bosibl y byddwn yn prosesu’r math hwn o ddata personol pan fydd ei hangen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu pan fydd ei hangen i ddiogelu eich

5.3 Ein dyletswyddau fel cyflogwr

Byddwn yn defnyddio eich data personol sensitif iawn yn y ffyrdd a ganlyn:

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy’n ymwneud â chyfnodau o absenoldeb a all gynnwys absenoldeb salwch neu absenoldeb yn gysylltiedig â'r teulu, i gydymffurfio â chyfraith cyflogaeth a chyfreithiau eraill.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich iechyd corfforol neu eich iechyd meddwl, neu statws anabledd, i sicrhau eich iechyd a’ch diogelwch yn y gweithle. Byddwn hefyd yn ei defnyddio i asesu eich ffitrwydd i weithio, i ddarparu addasiadau priodol yn y gweithle, i fonitro a rheoli absenoldeb oherwydd salwch ac i weinyddu budd-daliadau.
- Rheoli’r ymateb i bandemigau, epidemigau a rheoli clefydau heintus neu iechyd eraill, sydd y tu hwnt i’r hyn a fyddai fel arfer yn cael ei gasglu gan staff y BBC a’u dibynyddion, er mwyn sicrhau eu diogelwch a’u llesiant.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu darddiad cenedlaethol neu ethnig, eich credoau crefyddol, athronyddol neu foesol, neu eich bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol, i sicrhau bod y broses monitro a chofnodi cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn ystyrlon, ac i wneud gwelliannau ac addasiad rhesymol i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb.
- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am aelodaeth o undeb llafur i dalu premiymau undebau llafur, i gofrestru statws cyflogai gwarchodedig ac i gydymffurfio â’n rhwymedigaethau cyfreithiol.

5.4 A oes angen eich caniatâd chi arnom?

Nid oes angen eich caniatâd chi arnom os byddwn yn defnyddio categorïau arbennig o’ch data personol yn unol â'n polisi ysgrifenedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu i arfer hawliau

penodol ym maes cyfraith cyflogaeth, neu lle mae angen prosesu data categori arbennig am resymau sydd er budd y cyhoedd yn sylweddol.

Mewn amgylchiadau prin, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi er mwyn cael eich caniatâd ysgrifenedig i adael i ni brosesu data penodol sy'n sensitif iawn. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn rhoi manylion llawn y data personol yr hoffem ei chael a'r rheswm pam mae ei hangen arnom, er mwyn i chi allu ystyried yn ofalus a ydych am roi caniatâd.

Dylech wybod nad yw'n amod yn eich contract â ni eich bod yn cytuno i unrhyw gais am ganiatâd gennym ni.

6. DATA EUOGFARNAU TROSEDDOL

Dim ond pan mae'r gyfraith yn gadael i ni wneud hynny y cawn ni ddefnyddio data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau. Fel arfer, bydd hyn yn berthnasol pan mae'r prosesu'n ofynnol er mwyn cyflawni ein dyletswyddau a chyhyd â'n bod yn gwneud hynny yn unol â'n Dogfen Bolisi Briodol.

Yn llai cyffredin, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig â throseddau ac euogfarnau troseddol os bydd ei hangen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol, os bydd ei hangen i ddiogelu eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) a chithau ddim yn gallu rhoi eich caniatâd, neu os ydych eisoes wedi gwneud yr wybodaeth yn

Rydym yn rhagweld y byddwn yn dal data personol am droseddau ac euogfarnau troseddol.

Byddwn yn casglu data personol am droseddau ac euogfarnau troseddol dim ond os yw hynny'n briodol gan gofio natur y swydd a phryd y gallwn wneud hynny'n gyfreithiol. Pan fo'n briodol, byddwn yn casglu gwybodaeth am droseddau ac euogfarnau troseddol fel rhan o'r broses recriwtio neu mae'n bosibl y byddwch chi yn rhoi'r wybodaeth honno i ni yn uniongyrchol pan fyddwch yn gweithio i ni. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau yn y ffyrdd canlynol:

- Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (neu wasanaethau archwilio cofnodion troseddol cyfatebol).
- I weld a ydych yn addas i weithio mewn swydd benodol.

Cawn ddefnyddio eich data personol yn y ffordd hon i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd arnom.

7. GWNEUD PENDERFYNIADAU'N AWTOMATIG

Mae penderfyniadau awtomatig yn cael eu gwneud pan fydd system electronig yn defnyddio data personol i wneud penderfyniad heb gymorth unigolyn. Cawn ddefnyddio'r broses o wneud penderfyniadau'n awtomatig yn yr amgylchiadau canlynol:

5. Pan fyddwn wedi rhoi gwybod i chi am y penderfyniad ac wedi rhoi 21 diwrnod i chi ar gyfer gwneud cais i'r penderfyniad gael ei ailystyried.
6. Pan fo'n rhaid gwneud hynny i gyflawni'r contract gyda chi a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau.
7. Mewn amgylchiadau prin, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol chi a phan fo mesurau priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau.
8. Os byddwn yn gwneud penderfyniad awtomatig ar sail unrhyw wybodaeth bersonol sensitif iawn, rhaid i ni un ai gael eich caniatâd ysgrifenedig penodol chi neu rhaid bod modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd. Rhaid i ni hefyd sefydlu mesurau priodol i ddiogelu eich hawliau.

Ni fydd penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol arnoch yn cael eu gwneud ar sail penderfyniadau awtomatig yn unig, oni fydd gennym sail gyfreithiol dros wneud hynny ac wedi rhoi gwybod i chi.

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud amdanoch drwy ddulliau awtomatig. Ond, os bydd y sefyllfa hon yn newid, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig.

8. RHANNU DATA

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data personol amdanoch chi gyda thrydydd partïon, gan gynnwys asiantaethau llywodraeth ac archwilwyr allanol megis gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi i ddibenion casglu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu gyda'r GIG ac asiantaethau Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban (neu gyrff cyfatebol ar gyfer swyddfeydd tramor), darparwyr gwasanaethau trydydd parti ac endidau eraill yn y grŵp.

Rydym yn gofyn i drydydd partïon barchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith.

Mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Os byddwn yn gwneud hyn, gallwch ddisgwyl lefel debyg o ddiogelwch mewn perthynas â'ch data personol.

8.1 Pam y byddech yn rhannu fy nata personol â thrydydd partïon?

Byddwn yn rhannu eich data personol â thrydydd partïon lle bo'r gyfraith yn mynnu neu'n caniatáu hynny, lle mae'n angenrheidiol gweinyddu'r berthynas waith â chi, lle mae'n angenrheidiol i'r trydydd parti weinyddu ei berthynas waith â chi (er enghraifft, os ydych chi ar secondiad i sefydliad arall) neu lle mae gennym fuddiant dilys arall mewn gwneud hynny.

8.2 Pa ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n prosesu fy nata personol?

Mae “trydydd partïon” yn cynnwys darparwyr gwasanaeth trydydd parti (gan gynnwys contractwyr ac asiantau dynodedig) ac endidau eraill yn ein grŵp. Mae’r gweithgareddau canlynol yn cael eu cyflawni gan ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti: gwasanaethau cyflogres, gweinyddu pensiynau, darparu a gweinyddu buddion, Iechyd Galwedigaethol, darparwyr hyfforddiant, iechyd a llesiant, gwasanaethau TG.

8.3 Pa mor ddiogel yw fy nata personol gyda darparwyr gwasanaeth trydydd parti ac endidau eraill yn ein grŵp?

Rhaid i’n holl ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ac endidau eraill yn y grŵp gymryd mesurau diogelu priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol yn unol â’n polisïau. Nid ydym yn gadael i’n darparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol chi at eu dibenion hwy eu hunain. Dim ond ar gyfer dibenion penodol yr ydym yn gadael iddynt brosesu eich data personol ac yn unol â’n cyfarwyddiadau.

8.4 Pryd y gallech chi rannu fy nata personol ag endidau eraill yn y grŵp?

Byddwn yn rhannu eich data personol ag endidau eraill yn ein grŵp a gyda BBC Plant mewn Angen a BBC Media Action fel rhan o’n gweithgareddau adrodd rheolaidd ar berfformiad y cwmni, yng nghyd-destun ymarfer ad-drefnu busnes neu ailstrwythuro grwpiau, recriwtio, ar gyfer cymorth cynnal a chadw systemau a lletya data.

8.5 Beth am drydydd partïon eraill?

Mae’n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol â thrydydd partïon eraill, er enghraifft yng nghyd-destun gwerthiant posibl neu ailstrwythuro’r busnes. Mae’n bosibl hefyd y bydd angen i ni rannu eich data personol â rheoleiddiwr neu fel arall i gydymffurfio â'r gyfraith.

8.6 Diamond

Mae darlledwyr a’r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (CDN) yn monitro amrywiaeth ar deledu'r Deyrnas Unedig drwy Diamond. Mae ganddynt fuddiant dilys mewn casglu gwybodaeth amrywiaeth am ein diwydiant , ac os byddwch chi yn rhoi eich enw a’ch cyfeiriad e-bost i ni, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ar system o'r enw Silvermouse, a byddwch yn cael eich gwahodd i ddarparu eich nodweddion amrywiaeth. Y darlledwyr a CDN, fel rheolyddion data, sy’n gyfrifol am y data hyn a byddant yn cadw eich enw a’ch cyfeiriad e-bost i'r pwrpas hwn ar Silvermouse am gyn hired ag y byddant yn monitro amrywiaeth. Maent hefyd yn casglu gwybodaeth am farn gwylwyr am amrywiaeth ar y sgrin. Mae rhagor o wybodaeth am Diamond ar gael yma: http://creativediversitynetwork.com/diamond/contributors/.

8.7 Trosglwyddo data personol y tu allan i’r Deyrnas Unedig a’r Ardal Economaidd Ewropeaidd

Mae’n bosibl y byddwn ni’n trosglwyddo’r data personol rydym yn ei chasglu amdanoch chi y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu’r Ardal Economaidd Ewropeaidd er mwyn cyflawni ein contract â chi. Pan fyddwn yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i’r Deyrnas Unedig neu’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, byddwn yn sicrhau bod gennym ddulliau diogelu priodol.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau y bydd eich data personol yn cael ei diogelu'n ddigonol, rydym wedi rhoi mesurau priodol ar waith i sicrhau bod eich data personol yn cael ei drin gan y trydydd partïon hynny mewn ffordd sy'n gyson â deddfau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelu data, ac sy'n parchu'r deddfau hynny. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am y mesurau diogelu hyn, gallwch gysylltu â'ch Swyddog Diogelu Data perthnasol.

9. DIOGELWCH DATA

Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i warchod diogelwch eich data personol. Mae manylion y mesurau hyn ar gael drwy Gateway.

Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y bydd trydydd partïon yn prosesu eich data personol a phan maent wedi cytuno i drin eich data yn gyfrinachol a'i chadw'n ddiogel.

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn atal eich data personol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu ei hagor ati mewn ffordd heb ei hawdurdodi, a rhag cael ei newid neu ei datgelu. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r cyflogeion, yr asiantau a'r contractwyr a'r trydydd partïon eraill hynny sydd angen gwybod mewn perthynas â'r busnes. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn prosesu eich data personol ac mae ganddynt ddyletswydd cyfrinachedd. Mae manylion y mesurau hyn ar gael yn Information.Security@bbc.co.uk.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio ag unrhyw ddigwyddiad neu achos posibl o dorri mesurau diogelu data, a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw Awdurdod Statudol am hyn pan fo raid i ni wneud hynny o dan y gyfraith.

10. CADW DATA

10.1 Am faint y byddwch chi'n cadw fy nata personol?

Dim ond am gyn hired ag sy'n ofynnol i gyflawni dibenion casglu'r data y byddwn yn cadw eich data personol, gan gynnwys at ddibenion bodloni gofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd ac fel y nodir yn y Polisi Lleihau a Chadw Data Personol. Mae manylion cyfnodau cadw gwahanol agweddau ar eich data personol ar gael yn ein Rhestr Gadw Gorfforaethol.

I benderfynu ar y cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried maint, natur a sensitifrwydd y data personol, y perygl posibl o niwed yn sgil defnyddio neu ddatgelu eich gwybodaeth bersonol heb awdurdod, dibenion prosesu eich data personol ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny drwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud eich data personol yn ddienw fel na fydd modd cysylltu'r wybodaeth â chi bellach. Yn yr achos hwn gallwn ddefnyddio'r cyfryw wybodaeth heb roi rhagor o rybudd i chi. Pan na fyddwch mwyach yn gyflogai, yn weithiwr neu'n gontractwr gyda'r cwmni, byddwn yn cadw ac yn dinistrio eich data personol yn ddiogel ac yn unol â'n Polisi Cadw Corfforaethol a/neu ddeddfau/reoliadau perthnasol.

11. HAWLIAU GWRTHRYCH DATA

11.1 Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau

Mae'n bwysig bod y data personol rydym yn ei ddal amdanoch chi yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda os bydd eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni.

11.2 Eich hawliau mewn perthynas â data personol

Os ydych chi wedi eich lleoli yn y Deyrnas Unedig neu yn yr Undeb Ewropeaidd, o dan rai amgylchiadau, mae gennych hawl yn ôl y gyfraith i:

- **Gwneud cais am fynediad** at eich data personol (a elwir fel arfer yn “cais gwrthrych am ddata”). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r data personol rydym yn ei ddal amdanoch ac i wneud yn siŵr ein bod yn ei brosesu’n gyfreithlon.
- **Gwneud cais** i gywiro'r data personol rydym yn ei ddal amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn rydym yn ei dal amdanoch.
- **Gwneud cais i ddileu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu symud eich data personol pan nad oes gennym reswm da dros barhau i’w phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu symud eich data personol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu** eich data personol pan rydym yn dibynnu ar fuddiant cyfreithlon (neu fuddiant trydydd parti) a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol chi sy’n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu prosesu ar y sail hon. Yn ogystal, mae gennych hawl i wrthwynebu pan rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Gwneud cais i gyfyngu ar brosesu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni atal dros dro y gwaith o brosesu data personol amdanoch, er enghraifft os ydych am i ni ganfod a yw’n gywir neu beth yw'r rheswm am ei phrosesu.
- **Gwneud cais i drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os byddwch chi eisiau adolygu, gwirio, cywiro neu wneud cais i ddileu eich data personol, neu wrthwynebu prosesu eich data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o’ch data personol i barti arall, cysylltwch â ni yn ysgrifenedig, drwy anfon neges e-bost at eich Swyddog Diogelu Data perthnasol.

Mae’n bosibl y bydd eich hawliau'n wahanol os ydych chi wedi eich lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu’r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Byddwn yn ymateb i’ch cais mewn ffordd sy’n gyson â’n rhwymedigaethau yn y wlad neu’r diriogaeth berthnasol.

11.3 Does dim angen talu ffi fel arfer

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich data personol (neu i arfer unrhyw rai o'r hawliau eraill). Ond, mae’n bosibl y byddwn yn codi ffi resymol os yw’n gwbl amlwg bod eich cais am fynediad yn ddi-sail neu’n ormodol. Neu mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'r cais yn y cyfryw

amgylchiadau.

11.4 Beth allen ni fod ei angen gennych chi

Mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau eich hawl i gael mynediad at y data personol (neu i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Dyma fesur diogelu priodol arall i sicrhau nad yw eich data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw un nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

12. HAWL I DYNNU CANIATÂD YN ÔL

Mewn amgylchiadau prin a chithau efallai wedi rhoi eich caniatâd i'ch data personol gael ei chasglu, ei phrosesu neu ei throsglwyddo at ddiben penodol, mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar gyfer y diben penodol hwnnw ar unrhyw adeg. I dynnu eich caniatâd yn ôl, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad perthnasol isod.

Unwaith y byddwn wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu eich caniatâd yn ôl, ni fyddwn wedyn yn prosesu eich data personol at y diben neu'r dibenion y cytunoch chi iddynt yn wreiddiol, oni bai fod gennym sail gyfreithlon arall dros wneud hynny dan y gyfraith.

13. MANYLION CYSWLLT Y SWYDDOG DIOGELU DATA

Os bydd gennych chi gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu ynglŷn â sut rydym yn trin eich data personol, cysylltwch â'ch Swyddog Diogelu Data perthnasol:

- **Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC:** DataProtection.Officer@bbc.co.uk
- **BBC Studios:** data.protection@bbc.com
- **BBC Plant mewn Angen:** cindpo@bbc.co.uk
- **BBC Media Action:** media.action@bbc.co.uk

Mae gennych chi hawl i wneud cwyn unrhyw bryd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (**ICO**), sef yr awdurdod goruchwyliol yn y Deyrnas Unedig ar gyfer materion yn ymwneud â diogelu data, drwy gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth.

14. NEWIDIADAU I'R POLISI PREIFATRWYDD HWN

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg, a byddwn yn darparu hysbysiad preifatrwydd newydd i chi pan fyddwn yn ei ddiweddaru'n sylweddol. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd o bryd i'w gilydd yn rhoi gwybod i chi mewn ffyrdd eraill am ein gwaith yn prosesu eich data personol. Pan fo angen, byddwn yn gofyn am ganiatâd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau prosesu newydd, cyn gwneud y cyfryw brosesu.

Rheoli Dogfennau

Enw'r Ddogfen	Hysbysiadau Preifatrwydd BBC People		
Fersiwn	3		
Ffynhonnell	Swyddog Diogelu Data, QRA		
Perchennog y polisi	Swyddog Diogelu Data		
Cymeradwywyd gan/Dyddiad	6 Ionawr 2023		
Hanes Archif:			
Dyddiad	**Fersiwn**	**Awdur**	**Newidiadau/Sylwadau**
25/05/2018	**1.0**	**Tîm Hawliau Gwybodaeth**	**PPN newydd oherwydd bod GDPR wedi cael ei gyflwyno yn 2018**
27/10/2020	**2.0**	**Swyddog Diogelu Data**	**PPN diwygiedig sy'n ychwanegu eglurder ynghylch casglu a phrosesu data personol**
06/01/2023	**3.0**	**Swyddog Diogelu Data**	**PPN diwygiedig i gynnwys achosion defnydd newydd a rhoi rhagor o eglurder ynghylch casglu a phrosesu data personol**